

**Arweiniad atodol ar arolygu cydraddoldeb
hiliol, hyrwyddo perthynas dda a Saesneg fel
iaith ychwanegol**

Gorffennaf 2005



Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

...Rhagoriaeth i bawb... ... Excellence for all...



**BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE**

Arweiniad atodol ar gyfer cydraddoldeb hiliol

Cyhoeddwyd gan Estyn Gorffennaf 2005

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir wrth fynd i'r wasg. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglyn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at publications@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2005: Gellir defnyddio'r ddogfen/cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos adrannol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Arweiniad atodol ar arolygu cydraddoldeb hiliol, hyrwyddo perthynas dda a Saesneg fel iaith ychwanegol

Am beth mae'r arweiniad yn sôn?

Pob ysgol ac arolygydd gan gynnwys AEM, arolygwyr cofrestredig a chontractwyr.

Ar gyfer pwy mae'r arweiniad?

Arolygu cydraddoldeb hiliol, hyrwyddo perthnasoedd da a Saesneg fel iaith ychwanegol.

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2005

Cyflwyniad

Mae'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r llawlyfrau ar gyfer y gwahanol sectorau'n cynnwys arweiniad ar arolygu materion yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol, hyrwyddo cysylltiadau hiliol da a Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r arweiniad atodol hwn yn rhoi rhywfaint o wybodaeth bellach ar gyfer arolygu'r meysydd hyn.

Nid oes disgwyl i chi ofyn yr holl gwestiynau a awgrymir. Gallwch eu defnyddio i helpu canolbwyntio'r trafodaethau gyda staff perthnasol neu yng nghyfarfodydd y tîm arolygu.

1. Cydraddoldeb hiliol

Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000

Mae'r Ddeddf Diwygiad yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, wrth berfformio eu swyddogaeth gyhoeddus, i roi ystyriaeth briodol i'r angen i:

- hyrwyddo cyfle cyfartal;
- hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol; a
- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil.

Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn bod gan ysgolion a cholegau bolisi cydraddoldeb hiliol sy'n cynnwys staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr, a'r gymuned ehangach.

Mae'r ddyletswydd benodol ar ysgol yn gofyn iddi:

- baratoi datganiad ysgrifenedig o'i bolisi ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb hiliol;
- cael trefniadau ar waith yn ôl yr angen i ddiwallu, cyn gynted â bo hynny'n rhesymol ymarferol, ei ddyletswyddau statudol;
- asesu gweithredu ac effaith ei holl bolisiâu, gan gynnwys ei bolisi cydraddoldeb hiliol, ar staff, disgyblion a rhieni, ac yn benodol ar lefelau cyrhaeddiad y disgyblion;
- monitro, trwy gyfeirio at grwpiau hiliol, derbyn a chynnydd y myfyrwyr;
- monitro, trwy gyfeirio at grwpiau hiliol, recriwtio a chynnydd gyrfaedd y staff; a
- chynnwys yn ei bolisi cydraddoldeb hiliol syniad o'i drefniadau ar gyfer cyhoeddi'r polisi a chyfleu canlyniadau ei weithgareddau asesu a monitro dan y polisi.

2. Rhestr wirio arolygu¹

Y prif bwyntiau y dylech eu hystyried yw p'un ai:

- oes gan yr ysgol bolisi cydraddoldeb hiliol;
- yw'r polisi cydraddoldeb hiliol yn ymdrin â'r holl ddyletswyddau penodol sydd gan yr ysgol o dan y Ddeddf a phrif feysydd gweithgarwch yr ysgol sy'n berthnasol i hyrwyddo'r ddyletswydd gyffredinol;
- yw'r polisi cydraddoldeb hiliol yn gysylltiedig â chynllun datblygu'r ysgol a'i fod yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd;
- yw'r ysgol wedi gwneud trefniadau i asesu effaith ei holl bolisiâu ar ddisgyblion, staff a rhieni o wahanol grwpiau hiliol, ac yn rhoi blaenoriaeth i effaith ei bolisiâu ar lefelau cyrhaeddiad y disgyblion;
- yw'r ysgol wedi gwneud trefniadau i fonitro effaith ei bolisiâu a'r ffordd maent yn gweithio, ac yn rhoi blaenoriaeth i effaith ei bolisiâu ar lefelau cyrhaeddiad y disgyblion; ac a yw'r
- ysgol wedi gwneud trefniadau i gyhoeddi canlyniadau ei gwaith monitro bob blwyddyn.

¹ Cymerwyd o "Fframwaith ar gyfer Arolygiaethau" a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Gorffennaf 2002.

3. Mae'r cwestiynau i'w gofyn mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol yn cynnwys:

- A yw'r ysgol yn defnyddio "Dysgu i Bawb: Safonau ar gyfer cydraddoldeb hiliol mewn ysgolion" (a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cydraddoldeb Hiliol) fel ffynhonnell arweiniad ac arfer dda?
- A yw'r ysgol yn gwerthfawrogi cyfraniad disgyblion o leiafrifoedd ethnig?
- Sut mae'r ysgol yn gwrthwynebu stereoteipio?
- A yw gwahaniaethau diwylliannol ac amrywiaeth yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu yn yr ysgol?
- Sut mae'r ysgol yn hyrwyddo parch a dealltwriaeth diwylliannau, ieithoedd, ffydd a grwpiau ethnig amrywiol, yn enwedig os ychydig ddisgyblion yn unig o'r cefndiroedd amrywiol hyn sydd yn yr ysgol?
- A yw'r disgyblion yn oddefgar tuag at gredoau, diwylliannau a chefnidiroedd disgyblion eraill?
- Pa mor effeithiol y mae gwahanol agweddau ar y cwricwlwm yn cyfrannu at ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o amrywiaeth diwylliannol?
- A yw'r disgyblion yn gallu trafod a myfyrio ar fywyd mewn diwylliannau eraill?
- A yw'r disgyblion yn cydnabod ac yn deall yn fwyfwy amrywiaeth o gredoau, agweddau a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol?
- Sut mae Cydaddoli, gyda'i fframwaith Cristnogol gan mwyaf, yn cyfrannu at ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o amrywiaeth diwylliannol?
- Sut mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion o gredoau eraill i lynu at eu defodau a'u harferion crefyddol eu hunain?
- A yw'r ysgol yn gwneud defnydd da o adnoddau ychwanegol, er enghraifft, arbenigedd arweinwyr cymunedol?
- A yw adnoddau dysgu'n dangos sensitifrwydd at wahanol grwpiau a diwylliannau?
- A yw'r ysgol yn cofnodi'r holl ddigwyddiadau hiliol ac yn adrodd y rhain i'r rhieni neu'r gwarchodwyr, llywodraethwyr ysgol a'r AALI?
- A yw'r ysgol yn dadansoddi hunaniaeth ethnig disgyblion sy'n cael eu gwahardd?
- Pa mor dda yw gwybodaeth yr ysgol am iaith y disgyblion yn y cartref, a diwylliannau, gwerthoedd a defodau'r disgyblion?

4. Saesneg fel iaith ychwanegol

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi nawdd i AALLau ar gyfer cyflawniad lleiafrifoedd ethnig dan y Gronfa Ysgolion Gwell blaenoriaeth 3A, y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (GCLIE). Nod y grant hwn yw gwella cyfle addysgol cyfartal ar gyfer yr holl grwpiau lleiafrifoedd ethnig gan gynnwys y rhai y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae arolwg ar ddefnyddio adnoddau GCLIE yn effeithiol a gyhoeddwyd gan Estyn yn ddiweddar yn nodi:

- bod gan rhy ychydig o athrawon y brif ffrwd yr hyfforddiant neu'r medrau i fodloni anghenion disgyblion SIY yn effeithiol; ac
- nid oes digon o gydweithredu rhwng athrawon disgyblion SIY y brif ffrwd ac athrawon cymorth GCLIE wrth gynllunio profiadau'r disgyblion.

Dylai Arolygwyr Cofrestredig sicrhau eu bod yn cynnwys yn yr adran ar gyd-destun yr ysgol, lle bo'n berthnasol, gyfeiriad at fanylion yr ieithoedd sy'n cael eu siarad a nifer y disgyblion sy'n dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol. Dylai pob arolygydd tîm sicrhau eu bod yn defnyddio'r derminoleg gywir, wrth gyfeirio at ieithoedd cymunedol ac osgoi enwau a ddefnyddir yn gyffredin os yw'r rhain yn anghywir.

Mewn ysgolion lle mae cyfran y disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn nodwedd arwyddocaol, dylech ddarparu arfarniad cryno, ar wahân o'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion SIY yn adrannau pynciau'r adroddiad. Dylech gynnwys arfarniad o drefn y disgyblion SIY a'r cysylltiadau â'r rhieni a'r gymuned leol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad llawn, er enghraifft, mewn perthynas â chyfle cyfartal.

Dylai sylwadau ar faterion cysylltiedig eraill, fel ansawdd yr addysgu, ansawdd y ddarpariaeth gwricwlaidd, a'r cysylltiadau gyda rhieni a'r gymuned leol, gael eu cynnwys yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad llawn.

5. Mae'r cwestiynau i'w gofyn mewn perthynas â'r Saesneg fel iaith ychwanegol yn cynnwys:

- A oes polisi ysgol gyfan ar gyfer cefnogi disgyblion sy'n dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol, ac os felly, a ydyw'n cael ei weithredu'n gyson?
- A yw'r amgylchedd yn groesawgar i'r disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt?
- A yw'r athrawon yn defnyddio gwybodaeth am yr ieithoedd sy'n cael eu siarad gan y disgyblion?

- A yw'r disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm? A oes unrhyw athrawon o'r brif ffrwd wedi ymgymryd â hyfforddiant i'w helpu i ddeall anghenion dysgu'r disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt?
- Pa mor agos yw'r cyswllt rhwng athrawon Saesneg fel iaith ychwanegol ac athrawon y brif ffrwd?
- Sut caiff gwersi yn nosbarthiadau'r brif ffrwd a, lle bo'n berthnasol, yn ystod unrhyw sesiynau tynnu'n ôl, eu strwythuro i fodloni anghenion penodol y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol?
- A yw'r ysgol yn olrhain llwyddiant ei ddarpariaeth Saesneg fel iaith ychwanegol trwy arfarnu cyraeddiadau'r disgyblion ac a yw'n defnyddio'r wybodaeth i nodi targedau ar gyfer gwelliant?
- A yw'r ysgol yn defnyddio'r iaith gyntaf i gefnogi dysgu?
- Sut mae'r ysgol yn bodloni anghenion y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt pan nad oes cymorth addysgu ar gael?
- A yw'r ysgol yn darparu cyfieithiadau o lythyrau ysgol a dogfennau mewn ieithoedd cymunedol? Os nad ydyw, sut mae'n cyfathrebu â'r rhieni sydd heb lawer o Gymraeg/Saesneg?
- A yw'r ysgol yn deall yn llwyr na ddylid ystyried bod diffyg hyfedredd yn y Saesneg yn gyfystyr ag anawsterau dysgu?
- Sut mae'r ysgol yn asesu anghenion y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt pan amheuir hefyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig?